# CANLLAW I DDYSGWYR:

## ADDASIADAU UG/SAFON UWCH 2022

# Popeth y mae angen i chi ei wybod

Cofiwch, bydd eich arholiadau a'ch asesiadau di-arholiad yn digwydd fel arfer yn Haf 2022, ond bydd rhai newidiadau, neu 'addasiadau', i wneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd.

Ar gyfer rhai pynciau, bydd gennych chi fynediad hefyd at daflenni 'Gwybodaeth Ymlaen Llaw' i'ch cefnogi wrth adolygu.

Bydd eich ysgol neu goleg yn ymwybodol o'r addasiadau a'r Wybodaeth Ymlaen Llaw ar gyfer eich pynciau – os ydych chi'n ansicr am unrhyw beth, gofynnwch i'ch athro a bydd yn dweud popeth y mae angen i chi ei wybod wrthych chi.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr Addasiadau yn ein canllawiau i athrawon hefyd.

## Beth sy'n newid: Addasiadau UG/Safon Uwch CBAC

| Pwnc UG | Crynodeb o addasiadau ar gyfer 2022* |
|---|---|
| **TGCh Gymhwysol** | • Nid oes bwriad i wneud unrhyw newidiadau i'r cymhwyster hwn |
| **Celf a Dylunio** | • Nid oes bwriad i wneud unrhyw newidiadau i'r cymhwyster hwn |
| **Bioleg / Cemeg / Ffiseg** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi (gan gynnwys rhywfaint o'r gwaith ymarferol penodol) ar gyfer Uned 1 ac Uned 2 |
| **Busnes** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1 ac Uned 2 |
| **Cyfrifiadureg** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1 |
| **Dylunio a Thechnoleg** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1<br>• Gall dysgwyr gwblhau model/brasfodel o'u dyluniad terfynol yn lle prototeip yn Uned 2 |
| **Drama a Theatr** | • Yn Uned 1 maint lleiaf grŵp fydd un actor a bydd yr isafswm amser perfformio yn cael ei leihau. Bydd y gofynion lleiaf ar gyfer yr opsiwn dylunio hefyd yn cael eu lleihau.<br>• Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r agweddau fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiad Uned 2 |
| **Economeg** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1 ac Uned 2 |
| **Saesneg Iaith** | • Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r genres/testun/pwrpasau a fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiadau Uned 1 ac Uned 2 |
| **Saesneg Iaith a Llenyddiaeth** | Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r agweddau fydd yn cael hasesu yn yr arholiadau Uned 1 ac Uned 2:<br>lleihau nifer y cerddi i'w hastudio ar gyfer Uned 1, a<br>rhoi syniad o'r adran o'r testun y daw'r darn ohono ar gyfer Adran A Uned 2 |
| **Llenyddiaeth Saesneg** | • Rhoi gwybod ymlaen llaw pa ddarnau/cerddi fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiadau Uned 1 ac Uned 2 |
| **Ffrangeg/Almaeneg/ Sbaeneg** | • Tynnu Tasg 1 (cerdyn dadl) yn yr Uned 1 Siarad (Asesiad Diarholiad) |

***Mae'r fersiynau heb eu haddasu o'n manylebau i'w gweld** *ar dudalennau'r pynciau ar ein gwefan.*

| Pwnc UG | Crynodeb o'r addasiadau ar gyfer 2022* |
|---|---|
| **Daearyddiaeth** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 2<br>• Gofynnir i ddysgwyr ymgymryd ag o leiaf un profiad gwaith maes wrth baratoi ar gyfer yr arholiad |
| **Llywodraeth a Gwleidyddiaeth** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1 ac Uned 2 |
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant** | • Nid asesir Tasg 2, rhan (dd) yr Asesiad Di-arholiad |
| **Hanes** | • Nid asesir un o'r cysyniadau/safbwyntiau wedi'u henwi ym mhob un o opsiynau astudiaeth achos Uned 1 |
| **TGCh** | • Bydd Adran B yn cael ei thynnu o'r arholiad Uned 1 |
| **Y Gyfraith** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1 ac Uned 2 |
| **Mathemateg a Mathemateg Bellach** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Mathemateg Uned 1 ac Uned 2<br>• Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Mathemateg Bellach Uned 1, Uned 2 ac Uned 3 |
| **Astudio'r Cyfryngau** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1<br>• Nid asesir cynllunio a bydd gofynion yr holl opsiynau cynhyrchu yn Asesiad Di-arholiad Uned 2 yn cael eu lleihau<br>• Derbynnir cynyrchiadau wedi'u cwblhau'n rhannol ar gyfer<br>• Asesiad Di-arholiad Uned 2 |
| **Cerddoriaeth** | • Bydd yr amser perfformio yn cael ei leihau yn Uned 1<br>• Dim ond un cyfansoddiad fydd ei angen yn Uned 2 |
| **Addysg Gorfforol** | • Bydd y gofyniad i hyfforddi/dyfarnu yn cael ei dynnu o Uned 2 (Asesiad Di-arholiad) |
| **Seicoleg** | • Nid asesir Adran A (Dadleuon Cyfoes) yn yr arholiad Uned 2 |
| **Astudiaethau Crefyddol** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi (is-themâu) yn Adran A yr arholiad Uned 2 |
| **Cymdeithaseg** | • Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r agweddau fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiad Uned 1 |
| **Cymraeg Iaith** | • Bydd dysgwyr yn astudio naill ai'r ffilm neu'r ddrama ar gyfer yr arholiad Llafar yn Uned 1<br>• Byddwn yn darparu copi o'r cerddi yn Adran B arholiad Uned 3 |
| **Cymraeg Ail Iaith** | • Tynnu un darn ysgrifenedig o waith o Asesiad Di-arholiad Uned 2<br>• Yn Uned 3 bydd nifer y cerddi i'w hastudio yn mynd i lawr o bump i bedwar. |

**Mae'r fersiynau heb eu haddasu o'n manylebau i'w gweld ar dudalennau'r pynciau ar ein gwefan.*

# Beth sy'n newid: Addasiadau UG/Safon Uwch

| Pwnc Safon Uwch | Crynodeb o'r addasiadau ar gyfer 2022* |
|---|---|
| **TGCh Gymhwysol** | • Yn Uned 3, bydd yr ymdriniaeth â'r senario gychwynnol yn digwydd fel gweithgaredd dosbarth cyfan 'dan arweiniad yr athro' yn hytrach na chael ei gwblhau gan nifer o grwpiau bach |
| **Celf a Dylunio** | • Nid asesir Uned 3 (aseiniad wedi'i osod yn allanol) |
| **Bioleg/Cemeg/Ffiseg** | • Ni fydd cynnwys UG nad yw'n cael ei ddatblygu nac yn ofynnol ar gyfer Unedau 3 a 4 yn cael ei asesu yn 2022<br>• Bioleg - Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 4<br>• Cemeg - Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 ac Uned 4<br>• Ffiseg - Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 4 |
| **Busnes** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 ac Uned 4 |
| **Cyfrifiadureg** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 ac Uned 4<br>• Yn Uned 5 byddwn yn tynnu'r gofyniad i ddysgwyr gwblhau prototeip, mireinio'r dyluniad ar ôl y prototeip a phrofi datblygiadol |
| **Dylunio a Thechnoleg** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3<br>• Gall dysgwyr gwblhau model/brasfodel o'u dyluniad terfynol yn lle prototeip yn Uned 4 |
| **Drama a Theatr** | • Yn Uned 3 maint lleiaf grŵp fydd un actor a bydd yr isafswm amser perfformio yn cael ei leihau. Bydd y gofynion lleiaf ar gyfer yr opsiwn dylunio hefyd yn cael eu lleihau.<br>• Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r agweddau fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiad Uned 4 |
| **Economeg** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 ac Uned 4 |
| **Saesneg Iaith** | • Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r genres/testun/pwrpasau fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiadau Uned 3 ac Uned 4 |
| **Saesneg Iaith a Llenyddiaeth** | • Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r agweddau fydd yn cael hasesu yn yr arholiadau Uned 3 ac Uned 4:<br>  • rhoi syniad o'r adran o'r testun y daw'r darnau ohono yn Uned 3<br>  • rhoi gwybod ymlaen llaw beth fydd y testun heb ei weld ar gyfer Iaith Lafar yn Adran A Uned 4 |
| **Llenyddiaeth Saesneg** | • Rhoi gwybod ymlaen llaw pa ddarnau/cerddi fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiadau Uned 3 ac Uned 4 |
| **Ffrangeg/Almaeneg/ Sbaeneg** | • Yn Uned 3 Siarad (Asesiad Di-arholiad), bydd amseriad un o'r tasgau yn cael ei leihau<br>• Nid asesir un is-thema wedi'i henwi yn yr arholiad Uned 4 |
| **Daearyddiaeth** | • Bydd Adran B (themâu cyfoes mewn daearyddiaeth) yn yr arholiad Uned 4 yn ymdrin ag un thema ddewisol yn unig |
| **Llywodraeth a Gwleidyddiaeth** | Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 ac Uned 4 |

***Mae'r fersiynau heb eu haddasu o'n manylebau i'w gweld** [ar dudalennau'r pynciau ar ein gwefan](#).*

| Pwnc Safon Uwch | Crynodeb o'r addasiadau ar gyfer 2022* |
|---|---|
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant** | • Yn Asesiad Di-arholiad Uned 4 (llwybr gofal plant) nid asesir Tasg 1, rhan (b)(ii) a (d)(i)<br>• Yn Asesiad Di-arholiad Uned 6 (llwybr iechyd a gofal cymdeithasol) nid asesir Tasg 1, rhan (b)(ii) a (d)(i) |
| **Hanes** | • Yn yr arholiad Uned 3, nid asesir cwestiynau â chyfnod amser byr |
| **TGCh** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3<br>• Yn Uned 4 byddwn yn tynnu'r gofyniad i ddysgwyr gwblhau'r cam gwerthuso |
| **Y Gyfraith** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 ac Uned 4 |
| **Mathemateg a Mathemateg Bellach** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Mathemateg Uned 3 ac Uned 4<br>• Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Mathemateg Bellach Uned 4, Uned 5 ac Uned 6 |
| **Astudio'r Cyfryngau** | • Yn Uned 3 bydd nifer y cynhyrchion gosod i'w hastudio ar gyfer pob adran yn mynd i lawr o dri i ddau<br>• Bydd dysgwyr yn creu un cynnyrch y cyfryngau yn unig yn Asesiad Di-arholiad Uned 4 a bydd y gofynion (amser/tudalennau/lluniau) yn cael eu lleihau<br>• Derbynnir cynyrchiadau wedi'u cwblhau'n rhannol ar gyfer Asesiad Di-arholiad Uned 4 |
| **Cerddoriaeth** | • Bydd yr amser perfformio yn cael ei leihau yn Uned 4<br>• Dim ond un cyfansoddiad fydd ei angen yn Uned 5 (opsiwn A)<br>• Dim ond dau gyfansoddiad fydd eu hangen yn Uned 5 (opsiwn B)<br>• Tynnir un o'r ddau waith gosod atodol yn Uned 6 Maes Astudio Dd Llinynnau 1 a 2 |
| **Addysg Gorfforo** | • Yn Asesiad Di-arholiad Uned 4 asesir dwy adran gyntaf y Project Ymchwil Ymchwiliol yn unig:<br>  • Cwblhau dadansoddiad cychwynnol o berfformiad personol gan nodi ymchwil priodol i helpu i wella perfformiad<br>  • Gwerthuso ymchwil, gan gynnwys data, er mwyn gwneud argymhellion a chynllun ar gyfer gwella perfformiad |
| **Seicoleg** | • Yn Adran A yr arholiad Uned 3, bydd gofyn i ddysgwyr ateb dau gwestiwn yn lle tri |
| **Astudiaethau Crefyddol** | • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi (Thema 1) yn yr arholiad Uned 4<br>• Nid asesir cynnwys wedi'i enwi (Thema 4) yn yr arholiad Uned 5 |
| **Cymdeithaseg** | • Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r agweddau fydd yn cael hasesu yn yr arholiad Uned 3 |
| **Cymraeg Iaith** | • Yn Uned 5 bydd nifer y cerddi i'w hastudio yn mynd i lawr o saith i chwech<br>• Yn Uned 6 bydd nifer y ffurfiau ysgrifennu i'w hastudio yn mynd i lawr o saith i bump |
| **Cymraeg Ail Iaith** | • Yn Uned 5 bydd cyfnod yr astudiaeth o'r Gymraeg yn y gymdeithas yn cael ei leihau o ganol yr 20fed ganrif hyd heddiw i'r 1980au hyd heddiw<br>• Yn Uned 6 bydd nifer y straeon byrion i'w hastudio yn mynd i lawr o bedwar i dr |

**Mae'r fersiynau heb eu haddasu o'n manylebau i'w gweld ar dudalennau'r pynciau ar ein gwefan.*

# Gwybodaeth Ymlaen Llaw – eich cefnogi wrth adolygu

Mae'r Wybodaeth Ymlaen Llaw yn rhoi ffocws i'r hyn y bydd arholiadau Haf 2022 yn ei gynnwys – gallwch chi ddefnyddio'r wybodaeth i gynllunio a pharatoi eich proses adolygu. Dewch o hyd i bopeth y mae angen i chi ei wybod.

## Cael y wybodaeth ddiweddaraf!

Dilynwch ni ar Instagram er mwyn cael gwybodaeth, diweddariadau ac awgrymiadau adolygu.

@wjecforstudents